# SGILIAU A MENTORA
## Medi – Tachwedd 2018

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

### Statws RAG

■ **Coch: Tu ôl i'r targed** ■ **Melyn: Bron â chyflawni'r targed** ■ **Gwyrdd: Ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed**

### Hyfforddiant ■

Mae'r nifer o achosion o hyfforddiant achrededig a gwblhawyd yn ystod y cyfnod yn is na'r disgwyl. Fodd bynnag, mae'r nifer o geisiadau wedi'u cymeradwyo yn ystod y Ffenestr hon wedi cynnyddu mewn cymhariaeth â'r ddwy ffenestr flaenorol. Gweler tabl isod sy'n rhoi dadansoddiad fesul categori hyfforddiant yn Ffenestr 10:


| Categori | Nifer y Ceisiadau wedi'u 'Cymeradwyo' |
|---|---|
| Categori 1 – Gwella'r Busnes | 119 |
| Categori 2 – Technegol | 187 |
| Categori 3 – Defnyddio Peiriannau ac Offer | 96 |
| CYFANSWM | 402 |

Y cyrsiau gyda'r mwyafrif o geisiadau yng Nghategori 1 Gwella'r Busnes oedd "Cofnodi Ariannol a TAW", "Cynllunio a Datblygu Busnes" a "Marchnata eich busnes". Cafwyd nifer uchel o geisiadau ar gyfer "Defnyddio Dip Defaid yn Ddiogel" a "Trimio Traed Gwartheg" o fewn Categori 2 Technegol. O fewn Categori 3 Defnyddio Peiriannu ac Offer y cyrsiau gyda'r mwyafrif o geisiadau oedd "Dyfarniad Lefel 2 mewn Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel (PA1) a (PA2)".

### Ystadegau Ymgeisio

Mae'r dadansoddiad a roddir yn y graff isod yn dangos nifer y ceisiadau a gymeradwywyd fesul amrediad oedran.

Nifer y cleientiaid a gymeradwywyd fesul amrediad oedran




### CDP ■

Ers dechrau'r rhaglen mae cyfanswm o **4089** cleient wedi cwblhau Cynllun Datblygu Personol. Crëwyd **306** CDP newydd yn ystod y cyfnod hwn.

### Agrisgôp ■

**39** GRŴP GWEITHREDOL gyda **357** AELOD yn mynychu cyfanswm o **62** CYFARFOD

Pynciau trafod:

- MYND I'R AFAEL Â CHYFNODAU BRIG A CHAFN CYNHYRCHU
- YMWELIAD Â SIOE GLAMPIO
- MANWERTHU CIG OEN
- CYNLLUNIO RHEOLI DŴR MEWN MODD RHAGWEITHIOL
- YMGYNGHORIAD BREXIT
- DEFNYDDIO MEINCNODI FEL OFFERYN BUSNES

### E-ddysgu ■

Mae cyfanswm o **68** cwrs e-ddysgu bellach ar gael ar wefan BOSS a chafodd **356** cwrs eu cwblhau yn ystod y cyfnod hwn. Mae Iechyd a Diogelwch yn parhau i fod y cwrs mwyaf poblogaidd gyda **114** wedi'u cwblhau. Yn dilyn hyn, y cyrsiau mwyaf poblogaidd oedd:

| Teitl y Cwrs | Nifer y Cyrsiau a Gwblhawyd |
|---|---|
| Ŵyna Sylfaenol | 15 |
| Cloffni mewn Defaid | 15 |
| Cynllunio Busnes | 4 |

Mae rhai o'r modiwlau E-ddysgu newydd a grëwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys:

**Iechyd yr Hwrdd:** Cynorthwyo unigolion i asesu a gwella iechyd hyrddod cyn y cyfnod hyrdda.

**Rheoli Slyri – Silwair, Slyri a Dŵr Glaw – Seilwaith a Rheoli Dŵr (Rhan 1):** Y cyntaf o ddau fodwl yn ymdrin â'r angen am reoli seilwaith silwair, slyri a dŵr glaw.

**Llygredd Amaethyddol – Da Byw a Newid Hinsawdd:** Mae'r modiwl hwn yn edrych ar ffyrdd o leihau'r nwy methan sy'n cael ei gynhyrchu ffermydd.

**Cywasgu Pridd:** Mae'r modiwl hwn yn edrych ar achosion a dulliau o atal cywasgiad ar ffermydd. Mae cywasgiad yn broblem fawr ar draws y byd, amcangyfrifir ei fod yn effeithio ar filiynau o hectarau o dir ar draws y byd.

**Ysgothi ymhlith lloi:** Mae'r modiwl hwn yn ystyried atal a gwneud diagnosis o ysgothi cyffredin neu ddolur rhydd ymhlith lloi, a thrin y cyflwr. Ysglothi yw'r afiechyd mwyaf cyffredin ymhlith lloiau cyn eu diddyfnu, gan gyfrif am tua 50% o farwolaethau.

**Anffrwythlondeb mewn hesbinychod:** Mae'r modiwl hwn yn disgrifio achosion, effaith a sut i reoli anffrwythlondeb mewn cenfeintiau bridio.


**Colostrwm a Lloi:** Mae'r modiwl hwn yn disgrifio pwysigrwydd cyflenwad digonol o golostrwm a chynnal hylendid yn ystod y cyfnod lloia.

**Gwella da byw gan ddefnyddio geneteg:** Mae'r modiwl hwn yn edrych ar sut mae dealltwriaeth o eneteg anifail yn gallu cynorthwyo i bennu ei allu i ffynnu a gwrthsefyll clefydau a chyflyrau penodol.

**Afiechyd Resbiradol mewn Dofednod:** Mae'r modiwl hwn yn disgrifio sut i ganfod, atal a thrin nifer o afiechydon resbiradol cyffredin mewn dofednod.

### Academi Amaeth ■


Rhaglen Busnes ac Arloesedd: Penwythnos 2



**Gwlad yr Iâ**
14-18 Hydref 2018

| Cafwyd siaradwyr gwadd a gweithgareddau yn cynnwys: |
|---|
| Sólheimar Ecovillage |
| Lladd-dy Starfsstöð á Selfossi |
| Fferm Geffylau Laxnes, Ceffylau Gwlad yr Iâ |
| Taith Fferm Efstidalur |
| Fferm Domato Friðheimar |
| Hella, Melin Wlan Gwlad yr Iâ |
| Taith fferm gyda'r ffermwr defaid a llaeth Geir Gislason |
| Taith fferm gyda'r ffermwr defaid Birta Sigurdurdottir |
| Cyfarfod Llysgenhadaeth Prydain gyda Auðunn Arnórsson |
| Cymdeithas Ffermwyr/Cig Oen Gwlad yr Iâ |

## Rhaglen Arweinyddiaeth Wledig: Penwythnos 2



**Brwsel**
4-7 Tachwedd 2018

| Cafwyd siaradwyr gwadd a gweithgareddau yn cynnwys: |
|---|
| Deborah Butler, Llywodraeth Cymru |
| Sophie Hulse, Ail Ysgrifennydd Bwyd-amaeth a Milfeddygaeth UKRep – Ymwrthedd Gwrthfiotigau |
| Thomas Parry-Jones, Prif Ysgrifennydd Amaeth UKRep – PGIs |
| Ben O'Brien, Rheolwr Rhanbarthol Ewrop Bîff a Chig Oen Seland Newydd Ymweliad i'r Parliamentarium |
| Cyfarfod 'China Mission to EU' |
| Nicola Hinder (Cynghorwr Amaethyddol) yn Llysgenhadaeth Awstralia |
| Katie Jarvis, Ymgynghorwr Polisi BAB |
| Derek Vaughan, Kay Swinburne ac ASE eraill yn y Senedd Ewropeaidd |
| Owen Jones, Pennaeth yr Uned Cymorth Uniongyrchol, DG Agri |
| Tom Jones o EESC yn trafod ei waith yn yr EESC a'r Adran Materion Amaethyddol, Gwledig ac Amgylcheddol |
| Seamus Boland, Prif Weithredwr Rural Link Iwerddon |
| Marie Clotteau, Cyfarwyddwr Euromomtanna |
| Imsee Sprag Nillson, Aelod o'r Fforwm Ieuenctid Ewropoeaidd o Sweden |

## Rhaglen yr Ifanc: Penwythnos 3



**Yr Alban**
27-29 Hydref 2018

| Cafwyd siaradwyr gwadd a gweithgareddau yn cynnwys: |
|---|
| Heather Wildman, Saviour Associates Ltd |
| Taith fferm gyda John Wildman, Rheolwr Fferm |
| Trosolwg o Laggan Outdoor gyda'r entrepreneur gwledig Duncan McConchie |
| Taith fferm gyda Robert Fleming, Ffermwr Bîff y Flwyddyn yr Alban |
| Trosolwg o'r Rural Youth Project gyda Rebecca Dawes |
| Taith fferm gyda'r ffermwr llaeth blaengar Colin Ferguson |
| Gweithdy arweinyddiaeth a phrofi chilli Sheena Horner, Galloway Chillies |
| Cyflwyniad busnes gan Aylett Roan, Roan's Dairy |

## Rhaglen Busnes ac Arloesedd: Penwythnos 3



**Gogledd Cymru**
16-18 Tachwedd 2019

| Guest speakers & activities included: |
|---|
| Cadw cyfrifon, Strwythur Busnes a Meddylfryd |
| Beth yw brand? |
| Haciau Fferm |
| Pŵer y Cyfryngau Cymdeithasol |
| Her Busnes ac Arloesedd |

## Seremoni'r Academi Amaeth yn y Ffair Aeaf




Chwith: Enillodd Kayleigh Rees-Jones wobr 1af yr Her Busnes ac Arloesedd.

Isod: Cyflwynodd yr Academi Arweinyddiaeth Wledig eu gweledigaeth ar gyfer polisïau'r dyfodol wedi Brexit. Derbyniodd yr Academi Iau eu tystysgrifau diwedd blwyddyn hefyd.



## Mentora

**228** MENTAI WEDI CAEL EU MENTORA

**52** MENTAI NEWYDD

**81%** O DARGED Y RHAGLEN WEDI'I GYFLAWNI


| | | |
|---|---|---|
| LLETY GWYLIAU | MAGU STOC PEDIGRI | MENTRAU AR Y CYD |
| OLYNIAETH | MAGU TYRCWN | SILWAIR AML-DORIAD |
| TYFU BETYS PORTHIANT | ANGHENION ASESU RISG | |

Cliciwch yma i ddysgu mwy am y Rhaglen Fentora.


## Cyfnewidfa Rheolaeth

**Cafwyd 27 cais ar gyfer y rhaglen Cyfnewidfa Rheolaeth 2019.**

Demograffeg Oedran




Ceisiadau fesul Sir




Mae pynciau astudio dewisol yr ymgeiswyr yn cynnwys:

**Cynhyrchu coed Nadolig Cadw gwenyn Mentrau ailwylltio Systemau magu lloi Dim triniaeth tir Ffermio cloron Gwell technegau bridio mewn geifr godro Nematodau gastroberfeddol Gwyndonnydd amlrywogaeth Systemau Biomas Gwres a Phŵer Cyfunedigsystems**